# ATODLEN

Erthygl 10

## Gwybodaeth a materion eraill i'w cynnwys mewn hysbysiad o dan erthygl 10 o Orchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008

## ("Gorchymyn 2008")

**1.** Enw, cyfeiriad (gan gynnwys cod post), Rhif ffacs (os yw'n gymwys), Rhif ffôn a chyfeiriad post electronig (os yw'n gymwys) y trethdalwr.

**2.** Cyfeiriad (gan gynnwys cod post) yr hereditament y gwneir cais am ryddhad ardrethi i fusnesau bach mewn cysylltiad ag ef ac, os yw hynny'n hysbys, ei rif cyfrif ardrethu annomestig.

**3.** Yn achos swyddfa bost, cadarnhad bod yr hereditament a grybwyllir ym mharagraff 2 uchod yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol at ddibenion swyddfa bost fel y'i disgrifir yng Ngorchymyn 2008.

**4.** Yn achos mangre fanwerthu—

(a) cadarnhad—

(i) bod yr hereditament a grybwyllir ym mharagraff 2 uchod yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion mangre fanwerthu fel y'i disgrifir yng Ngorchymyn 2008; a

(ii) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl;

(b) cyfeiriad llawn unrhyw hereditament arall neu hereditamentau eraill yng Nghymru y mae'r trethdalwr yn ei feddiannu neu'n eu meddiannu neu wedi ei feddiannu neu eu meddiannu ar unrhyw adeg ers y dyddiad ym mharagraff 8 isod;

(c) cadarnhad nad yw'r trethdalwr nac unrhyw un ar ei ran wedi rhoi hysbysiad o dan erthygl 10 o Orchymyn 2008 i unrhyw awdurdod bilio yng Nghymru mewn cysylltiad ag unrhyw hereditament arall. Os na ellir rhoi'r cadarnhad hwn, rhaid rhoi manylion llawn; ac

(ch) ymgymeriad gan y trethdalwr (ac os nad y trethdalwr yw'r person sy'n llofnodi'r hysbysiad, ymgymeriad ar ran y trethdalwr ) y bydd y trethdalwr, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn ysgrifennu i hysbysu'r awdurdod bilio—

(i) o gyfeiriad unrhyw hereditament yng Nghymru y mae'r trethdalwr wedi dechrau ei feddiannu ers iddo roi'r hysbysiad;

(ii) o'r dyddiad pryd y dechreuodd y trethdalwr feddiannu'r hereditament hwnnw;

(iii) o'r dyddiad pryd y gorffennodd y trethdalwr feddiannu'r hereditament a grybwyllir ym mharagraff 2 at ddibenion mangre fanwerthu;

(iv) o'r dyddiad pryd y rhoddwyd hysbysiad i unrhyw awdurdod bilio yng Nghymru gan neu ar ran y trethdalwr o dan Orchymyn 2008 mewn cysylltiad â hereditament ac eithrio'r un a grybwyllir ym mharagraff 2 a chyfeiriad yr hereditament arall hwnnw.

**5.** Yn achos mangre a ddefnyddir ar gyfer gofal plant—

(a) cadarnhad —

(i) bod yr hereditament a grybwyllir ym mharagraff 2 uchod yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion gofal plant fel a ddisgrifir yng Ngorchymyn 2008; a

(ii) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl; a

(b) enw a chyfeiriad y darparwr cofrestredig a'i rif cofrestru.

**6.** Yn achos mangre a ddefnyddir fel undeb credyd—

(a) cadarnhad—

(i) bod yr hereditament a grybwyllir ym mharagraff 2 uchod yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion undeb credyd fel y'i disgrifir yng Ngorchymyn 2008; a

(ii) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl; a

(b) swyddfa gofrestredig yr undeb credyd;

(c) cyfeiriad prif swyddfa'r undeb credyd, os yw'n wahanol i'r swyddfa gofrestredig; ac

(ch) y Rhif cyfeirnod ffyrm a ddyroddwyd i'r undeb credyd gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol.

**7.** Cadarnhad nad yw'r hereditament yn eiddo a eithrir fel y'i disgrifir yng Ngorchymyn 2008.

**Nid oes angen y cadarnhad hwn pan fydd y rhyddhad ardrethi y gwneir cais amdano'n ymwneud â swyddfa bost.**

**8.** Cadarnhad o'r naill neu'r llall o'r canlynol—

(a) y dyddiad pryd y cafodd yr hereditament ei ddefnyddio gyntaf fel a ddisgrifir yn yr hysbysiad a'i fod wedi parhau i gael ei ddefnyddio felly hyd at ddyddiad yr hysbysiad

neu

(b) y dyddiad y bydd yr hereditament yn cael ei ddefnyddio gyntaf fel a ddisgrifir uchod.

**9.** Ymgymeriad gan y trethdalwr (ac os nad y trethdalwr yw'r person sy'n llofnodi'r hysbysiad, ymgymeriad ar ran y trethdalwr) y bydd y trethdalwr cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn ysgrifennu i hysbysu'r awdurdod os yw o'r farn y gallai beidio â bod mwyach yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi o dan Orchymyn 2008.

**10.** Awdurdodiad gan y trethdalwr yn awdurdodi'r awdurdod bilio y rhoddir yr hysbysiad iddo i gaffael gan unrhyw berson unrhyw wybodaeth y mae'r awdurdod o'r farn ei bod yn berthnasol at ddibenion cadarnhau unrhyw wybodaeth a roddir yn yr hysbysiad neu at ddibenion sicrhau mewn dull arall gymhwystra'r trethdalwr i gael rhyddhad mewn cysylltiad â'r hereditament a grybwyllir ym mharagraff 2.

**11.** Llofnod y trethdalwr neu'r person wedi ei awdurdodi i lofnodi ar ran y trethdalwr.

**12.** Disgrifiad o swyddogaeth y person sy'n llofnodi'r hysbysiad.

**13.** Dyddiad yr hysbysiad.